

RHAGARWEINIAD

Mae gan riwbob enw da am dyfu mewn amrywiaeth eang o wahanol bridd a than wahanol amodau. Fodd bynnag, mae angen bod dipyn fwy manwl i gael y cynydau gorau. Mae pridd wedi'i draenio'n dda, ond sydd eto ddim yn sychu'n ormodol, yn ddelfrydol. Ar gyfer cynhyrchu cynnar mae pridd tywodlyd ysgafn yn cynhesu'n sydyn a bydd yn rhoi'r riwbob awyr agored cyntaf ar y farchnad.

PARATOI'R SAFLE

Chwyn lluosflwydd

Mae chwyn lluosflwydd yn broblem mewn riwbob a rhaid gwneud pob ymdrech i gael gwared ar chwyn cyn plannu. Y chwyn gwaethaf yw ysgall ymledol, marchwellt, dail poethion lluosflwydd, helyglys y Gorllewin a mieri. Os oes modd, mae'n well dilyn cylchdro cynydau â'r na thir pori parhaol.

Calchu

Nid yw riwbob yn hoff o asidrwydd ac, fel unrhyw gnwd lluosflwydd, mae'n anodd, os nad yn amhosibl, i unioni pH isel yn ddiweddarach. Bydd angen calchu'r cae hyd at pH o 7.0. Wrth roi calch ar y dechrau gellir ei gymysgu'n dda i'r pridd ond bydd unrhyw galch a roddir yn ddiweddarach yn tueddu i fod ar wyneb y pridd ac ni fydd o unrhyw fudd.

Deunydd organig ac adeiledd pridd

Unwaith mae'r pH yn gywir, mae'n rhaid rhoi sylw i adeiledd y pridd. Bydd ychwanegu tail fferm ar raddfa o 70 – 100 tonnelli yr hectar yn ddefnyddiol i wella gallu'r pridd i ddal dŵr. Bydd hefyd yn helpu i gadw adeiledd y pridd. Cyn rhoi'r tail, dylech sicrhau ei fod yn cydymffurfio ag unrhyw reoliadau Nitrate Vulnerable Zone yn yr ardal.

Dylid bod yn ofalus gyda thail gan y gall gario chwyn lluosflwydd. Gall dail tafol yn arbennig fod yn bla gan eu bod yn perthyn yn agos i riwbob; mae'r rhain yn aml yn cael eu cario mewn tail.

Ni ddylid trin y tir yn ormodol. Gan fod setiau riwbob yn fawr, nid oes angen pridd mân iawn.

Mae rhyw fath o gefnen neu welyau wedi'u codi yn ddefnyddiol i roi mwy o ddyfnder daear, gwell draeniad a mwy o gyfle i fedru mynd o dan y cnwd i'w godi.

MAETHIAD

Mae riwbob yn ymateb yn dda iawn i wrtaith. Y dull gorau yw dadansoddi'r pridd cyn plannu ac yna gwneud hynny wedyn bob dwy flynedd. Y mynegeion targed yw dau i dri ar gyfer potash a tri + ar gyfer ffosfforws.

DWYSEDD PLANNU

Mae'r dwysedd traddodiadol o 76 cm x 92 cm yn rhoi 14,346 o blanhigion yr hectar a gwelwyd mai dyma'r drefn orau ar gyfer amrywiaeth o wahanol fathau.

PLANNU

Gellir plannu o fis Hydref tan Fawrth, a chymryd bod y planhigion ynghwsg. Mewn gwirionedd, nid yw'n bwysig bod y stoc yn hollol ynghwsg; mae'n llawer pwysicach i blannu dan amodau da o ran adeiledd pridd.

Yn ddelfrydol mae'r 'setiau' yn ddarnau o'r planhigion gwreiddiol a dylai bod o leiaf un blaguryn da yn dangos. Dylid eu plannu gyda gwaelod y blaguryn o dan y pridd a dim ond y brig yn y golwg. Bydd gwreiddiau'n ffurfio wedyn o dan y blaguryn ac o fannau eraill yn y set.

Yn ddelfrydol mae setiau'n cael eu torri un diwrnod a'u plannu'r diwrnod wedyn. Ond gellir eu cadw am fis neu fwy. Dylid cadw setiau mewn lle oer a sych. Bydd hyn yn arafu unrhyw dyfiant ffwngaid.

Bydd angen cadw golwg ar y setiau tra maent yn cael eu storio i sicrhau nad ydynt yn sychu. Os byddant yn dechrau crebachu mae angen eu socian yn iawn mewn dŵr i'w hadfywio.



MATHAU

Tabl 1: Mathau riwbob i'w tyfu allan

Math	Cynaeafu o	Lliw coesyn	Sylwadau
Timperley Early	Chwefror	Pinc-wyrdd gyda gwaelod coch	Coesynnau gweddol fain
Stockbridge Arrow		Gwaelod coch yn graddol droi'n wyrdd	
Reeds Early Superb	Ebrill	Pinc-wyrdd	Yn bennaf ar gyfer fforsio
The Sutton	Mai	Gall fod yn goch iawn	Cnwd mawr, da ar gyfer Hel Eich Hun
Victoria	Mai		Coesynnau mawr iawn – hyd at 1kg. Defnyddiol ar gyfer prosesu

(d.s. dim ond syniad bras yw'r adegau cynaeafu hyn; gall lliw amrywio'n fawr)

CHWYNLADDWYR

Mae riwbob yn gnwd cystadleuol da gyda thymor ynghwsg, felly mae'n haws rheoli chwyn na chyda rhai cnydau lluosflwydd. Gwaetha'r modd, oherwydd nad yw'n gnwd pwysig iawn, ychydig o argymhellion a geir ar labeli chwynladdwyr. Edrychwch beth yw'r sefyllfa bresennol ar wefan y Chemicals Regulation Directorate (y wefan PSD o'r blaen) www.pesticides.gov.uk/psd_databases.asp

CYNAEFU A MARCHNATA

Caiff riwbob awyr agored ei dynnu'n ofalus i ryddhau'r coesyn heb naill ai ei snapio i ffwrdd na'i wasgu, a all achosi cleisio. Torrir y dail ac unrhyw weddill ar waelod y coesyn i ffwrdd gyda chyllell fel rheol i adael triongl taclus.

Gellir rhoi'r coesyn wedyn mewn bocsg glân heb iddo gyffwrdd y pridd. Bydd coesyn riwbob yn pwyso 250g neu fwy, felly mae'n gymharol rad i'w gynaeafu.

Mae'r cnwd yn barod pan mae'r coesyn tua 350 mm o hyd, er eu bod yn fyrrach yn aml gyda chnwd cynnar. Mae'n dibynnu i raddau helaeth beth yw gofynion eich marchnad.

I sicrhau'r ansawdd uchaf mae'n rhaid i goesynnau fod yn gyfan a glân ac yn syth i bob pwrpas. Yn y cae gellir naill ai ddethol a dewis coronau i'w codi neu, mewn rhai achosion, codir y cae cyfan a gadewir unrhyw goesynnau o ansawdd wael ar ôl yn y cae.

Dylid cadw'r cnwd a gynaeafwyd yn oer – mae banc rhew yn ddelfrydol. Os gadewir i'r coesynnau sychu mae'r croen yn mynd yn ddwl ac mae'r coesyn i gyd yn mynd yn llipa ac fel rwber.

OES PLANHIGFA

Fel rheol dechreuir cynaeafu yn yr ail flwyddyn ar ôl plannu. Fodd bynnag, os oes unrhyw arwyddion o wendid, peidiwch â chynaeafu; yn hytrach, ceisiwch weld beth yw'r broblem a'i datrys. Bydd hyn yn galluogi i'r cnwd gael ei draed dano a thyfu'n gryfach gan roi gwell cynnyrch yn y dyfodol.

Dylai'r blanhigfa gynhyrchu am dair i bum mlynedd. Arwyddion dirywiad yw llai o gynnyrch a nifer fawr o goesynnau tenau a gwan. Gan y bydd y cnwd newydd yn cymryd blwyddyn i ymsefydlu, mae'n rhaid cael gwared ar y stoc bresennol cyn gynted ag y gwelir unrhyw wendid. Y peth gorau yw cael cynllun o ddileu ac ailblannu fesul tipyn er mwyn sicrhau cnwd cyson.

PLÂU AC AFIECHYDON

Nid oes unrhyw blâu neu afiechydion o bwys yn ymosod ar riwbob ac felly mae'n dda ar gyfer ei dyfu'n organig.

O ran plâu, mae'r prif broblemau'n codi gyda lledaeniad a chyda chnydau newydd eu plannu. Y prif fgythiad yw cynrhon lledr, yn arbennig os oedd y cnwd blaenorol yn dywyrch neu'n gnwd llawn chwyn neu fraenar. Daw'r cynrhon mawr hyn allan yn y nos gan fwyta unrhyw dwf ac achosi i'r set farw. Bydd malwod yn achosi difrod tebyg.